Taflen ffeithiau
3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hawliau dinasyddion
yr UE yng Nghymru

# Dinasyddion yr UE a'u Hawl i Weithio

**Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys crynodeb byr o hawliau dinasyddion yr UE i weithio yng Nghymru. Yn y daflen ffeithiau hon, mae 'dinasyddion yr UE' yn cynnwys dinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE, yn ogystal â dinasyddion gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein), a dinasyddion y Swistir.**

Mae'r daflen ffeithiau hon hefyd yn ymdrin â hawliau aelodau teuluol nad ydynt yn ddinasyddion yr UE eu hunain, lle mae eu hawl i fyw yn y DU yn deillio o'u perthynas â dinesydd yr UE neu ddinesydd Prydeinig sydd wedi arfer hawliau rhyddid i symud fel gweithiwr, person hunangyflogedig, person hunangynhaliol neu fyfyriwr mewn gwlad letyol yn yr AEE yn union cyn dychwelyd i'r DU[1].

Dylai dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teulu a oedd yn byw yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020, ac sy'n dymuno aros yng Nghymru, fod wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS), naill ai am Statws Preswylydd Sefydlog (caniatâd amhenodol i aros) neu Statws Preswylydd Cyn-Sefydlog (caniatâd cyfyngedig i aros am 5 mlynedd). Nid oedd rhaid i ddinasyddion Iwerddon a phobl â chaniatâd amhenodol i aros wneud cais. Gall dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teulu na wnaethant gais i'r EUSS, neu y mae eu statws preswylydd cyn-sefydlog wedi dod i ben, wneud cais o hyd os ydynt yn gymwys ac yn gallu dangos 'sail resymol' dros beidio â bod wedi gwneud cais erbyn y terfyn amser neu ers i'r terfyn amser basio.

Ni all dinasyddion yr UE a gyrhaeddodd y DU am y tro cyntaf ar, neu ar ôl, 1 Ionawr 2021 gyflwyno cais am Statws Preswylydd Sefydlog na Statws Preswylydd Cyn-sefydlog. Maent yn cyrraedd fel Ymwelwyr Tymor Byr. Os dymunant aros am fwy nag ymweliad byr o hyd at chwe mis, rhaid iddynt gyflwyno cais am Fisa Tymor Hir (er enghraifft, i astudio, neu i weithio, neu i ymuno ag aelod o'u teulu). Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Fisâu Tymor Hir yn: Browse: Work in the UK– GOV.UK (www.gov.uk) Yn achos aelodau o deulu dinasyddion yr UE nad ydynt yn dod o'r UE, dim ond os ydynt eisoes yn meddu ar drwydded deulu'r EUSS y gallant ddod i'r DU bellach. Nid yw trwydded deulu'r AEE na cherdyn preswylio biometrig y DU, yn ddilys bellach yn y DU.

Bydd eVisa gan ddinasyddion sydd â cherdyn preswylio biometrig (BRC) ac sydd wedi cael statws o dan Gynllun Preswylio'n Sefydlog i ddinasyddion yr UE.

Mae eVisa yn gofnod ar-lein o statws mewnfudo rhywun ac amodau eu caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi, mae hefyd yn caniatáu i unigolyn rannu ei statws mewnfudo â thrydydd partïon pan fo angen.

1 Gall 'aelodau teuluol' gynnwys eich priod neu eich partner sifil, eich plant, eich wyrion/wyresau a'ch gorwyrion/gorwyresau dan 21 oed, eich plant dibynnol dros 21 oed, eich rhieni, eich teidiau a'ch neiniau, eich hen deidiau a hen neiniau dibynnol, a rhai partneriaid dibriod a pherthnasau dibynnol eraill (pan fo Swyddfa Gartref y DU wedi rhoi tystysgrif cofrestru 'aelod o'r teulu estynedig').

## Dinasyddion yr UE sydd â Statws Preswylydd Sefydlog neu Statws Preswylydd Cyn-sefydlog

Mae gan holl ddinasyddion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd a chanddynt Statws Preswylydd Sefydlog neu Statws Preswylydd Cyn-sefydlog hawl i weithio yng Nghymru. Ymhellach, mae gan y rhai a gyflwynodd gais i'r EUSS (hyd yn oed ar ôl y dyddiad cau) ac sy'n disgwyl am benderfyniad, hawl i weithio hyd nes y cânt Statws Preswylydd Sefydlog neu Statws Preswylydd Cyn-sefydlog (neu tan na allant apelio mwyach yn erbyn penderfyniad i wrthod eu cais). Nid yw eu hawl i weithio yn gysylltiedig â chyflogwr arbennig nac â swydd neu rôl arbennig. Mae gan ddinasyddion yr UE a chanddynt statws, neu sy'n aros am ganlyniad, hawl i gael eu trin yn gyfartal â gweithwyr Prydeinig mewn perthynas â mynediad at gyflogaeth, amodau gweithio, a'r holl fanteision cymdeithasol a'r holl fanteision treth eraill sy'n gysylltiedig â gwaith (er enghraifft, mynediad at bensiynau a budd-daliadau cysylltiedig â gwaith). Yn achos dinasyddion yr UE sydd â Statws Preswylydd Sefydlog, mae ganddynt hawl amhenodol i weithio yng Nghymru (a thrwy'r DU). Yn achos dinasyddion yr UE sydd â Statws Preswylydd Cyn-sefydlog, mae ganddynt hawl i weithio yng Nghymru (a thrwy'r DU) hyd nes y daw eu Statws Preswylydd Cyn-sefydlog i ben, pe na baent yn mynd yn eu blaen i gyflwyno cais am statws preswylydd sefydlog ar ôl preswylio yn y wlad am bum mlynedd. Yn achos dinasyddion yr UE sydd â Statws Preswylydd Cyn-sefydlog, mae ganddynt hawl i weithio yng Nghymru, a thrwy'r DU, hyd nes y daw eu Statws Preswylydd Cyn-sefydlog i ben. Gallant wneud cais am Statws Preswylydd Sefydlog ar ôl byw yn y DU am bum mlynedd.

Yn achos y rhai sy'n aros am ganlyniad, dylid eu trin yn gyfartal ac yn deg hyd nes y cyhoeddir y canlyniad, ac yna dylid eu trin yn unol â'r canlyniad a gânt. Bydd y rhai sydd wedi cyflwyno cais yn cael tystysgrif ymgeisio a bydd modd i gyflogwyr ddilysu'u statws gyda'r swyddfa gartref.

## Dinasyddion yr UE a oedd yn byw yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020 ac nad ydynt wedi cyflwyno cais i'r EUSS

Nid oes gan ddinasyddion yr UE ganiatâd i aros yn y DU bellach, ac felly, os nad oes ganddynt statws mewnfudo, ni chânt weithio yng Nghymru. > Os nad oes gan ddinasyddion yr UE ganiatâd i aros yn y DU bellach, ac felly, nad oes ganddynt statws mewnfudo, ni chânt weithio yng Nghymru. Gall dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teulu na wnaethant gais i'r EUSS wneud cais o hyd os ydynt yn gymwys ac yn gallu dangos 'sail resymol' dros beidio â bod wedi gwneud cais erbyn y terfyn amser neu ers i'r terfyn amser basio.

Nid yw cyflogwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu gweithwyr wedi cyflwyno cais i'r cynllun ac nid oes yn rhaid iddynt gynnal gwiriadau 'hawl i weithio' ôl-weithredol ar unigolion a gyflogwyd ar, neu cyn, 30 Mehefin 2021.

Efallai y bydd yna sefyllfaoedd pan sylweddolwch nad yw aelod o'ch gweithlu wedi cyflwyno cais i'r EUSS ac nad oes ganddo unrhyw fath arall o ganiatâd i breswylio yn y DU.

Mae'r canllawiau i gyflogwyr ynghylch yr 'hawl i weithio' (gweler y dolenni ar waelod y ddogfen hon) yn esbonio'r hyn y dylech ei wneud mewn sefyllfa o'r fath. Dylai'r cyflogwr roi gwybod i'r gweithiwr fod yn rhaid iddo gyflwyno cais o fewn 28 diwrnod o gael ei hysbysu.

## Dinasyddion yr UE a gyrhaeddodd am y tro cyntaf ar, neu ar ôl, 1 Ionawr 2021

### Ymwelwyr Tymor Byr (ymweliadau sy'n para llai na 6 mis)

Yn achos dinasyddion yr UE sy'n cyrraedd fel Ymwelwyr Tymor Byr, bydd modd eu trin fel Ymwelwyr Busnes. Bydd ganddynt hawl i fynd i gynadleddau, digwyddiadau a chyfarfodydd busnes, ond ni chânt wneud y canlynol:

- gweithio am dâl neu'n ddi-dâl i gwmni yn y DU
- gweithio fel unigolyn hunangyflogedig
- cymryd rhan mewn lleoliad gwaith neu interniaeth
- gwerthu nwyddau a gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd.

### Deiliaid Fisa Tymor Hir

Rhaid i ddinasyddion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd sy'n dymuno gweithio yn y DU gyflwyno cais am Fisa Tymor Hir. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd ganddynt hawl i fyw yn y DU ac i weithio, fel arfer i gyflogwr penodol, mewn swydd neu rôl arbennig. Os dymunant newid cyflogwr, swydd neu rôl, efallai y bydd yn rhaid iddynt wneud cais i newid telerau eu Fisa neu ailymgeisio am Fisa Tymor Hir arall.

### Prawf o hawl i weithio

Gall dinasyddion yr UE brofi bod ganddynt hawl i weithio trwy ddangos prawf eu bod â Statws Preswylydd Sefydlog neu Statws Preswylydd Cyn-sefydlog, neu fath arall o ganiatâd i aros (fel Fisa Tymor Hir). Os ydynt wedi cyflwyno cais dilys i'r EUSS, ond os nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â'u cais, gallant gyflwyno tystiolaeth o'u cais (tystysgrif ymgeisio) fel prawf o'u hawl i aros ac i barhau i weithio yng Nghymru. Fel arfer, bydd tystysgrif ymgeisio'n para 6 mis, ond mewn rhai amgylchiadau bydd angen mwy o amser i benderfynu ar y canlyniadau.

Rhaid i ddinasyddion yr UE nad oes ganddynt dystysgrif ymgeisio dilys bellach gael "cod rhannu" sydd ar gael trwy wefan Llywodraeth y DU (Gweld a phrofi eich statws mewnfudo – GOV.UK (www.gov.uk)) i brofi eu hawl i weithio yn y DU.

### Hunangyflogaeth

I gofrestru fel unigolyn hunangyflogedig, rhaid i ddinasyddion yr UE fod â rhif Yswiriant Gwladol. Gall dinasyddion yr UE wneud cais am rif Yswiriant Gwladol os ydynt yn byw yn y DU ac os oes ganddynt hawl i weithio yn y DU – h.y. bod ganddynt statws Preswylydd Cyn-sefydlog neu Sefydlog.

## Newidiadau i wiriadau trydydd parti a gwasanaethau gwirio ar gyfer deiliaid statws preswylydd cyn-sefydlog

Mae Swyddfa Gartref y DU wedi cyhoeddi y bydd yn dileu'r dyddiad y daw statws cyn-sefydlog i ben o'r proffiliau digidol a ddangosir i drydydd partïon yn y gwasanaethau gwirio ar-lein ar gyfer Hawl i Weithio, Hawl i Rentu (nad yw'n berthnasol i drigolion Cymru) a Gweld a Phrofi. Dim ond un gwiriad cychwynnol y bydd yn ofynnol i gyflogwyr, landlordiaid ac asiantau gosod ei gynnal. Ni fydd angen cynnal gwiriad pellach o hawl i weithio neu rentu pan fo'r unigolyn yn parhau i gael ei gyflogi ganddynt neu fel rhan o'r cytundeb tenantiaeth hwnnw.

Bydd canllawiau yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

### Beth sy'n rhaid i drydydd partïon sy'n gwirio statws ei wneud nawr?

- Rhaid i gyflogwyr a landlordiaid barhau i wirio bod gan y person y maent yn ei gyflogi neu'n rhentu eiddo iddo hawl i weithio neu rentu yn y DU. Mae'r gwiriadau hyn yn cael eu cynnal ar bobl o bob cenedligrwydd.
- Os oes gan yr unigolyn statws preswylydd cyn-sefydlog, gall y cyflogwr neu'r landlord/asiant gosod gadarnhau ei hawl i weithio neu rentu drwy ddefnyddio gwasanaeth gwirio ar-lein y Swyddfa Gartref.
- Ar ôl cwblhau'r gwiriad cychwynnol o'r hawl i weithio neu rentu, ni fydd angen gwiriad dilynol pellach yn ystod y gyflogaeth neu denantiaeth.
- Ni fydd yn ofynnol bellach i awdurdodau trwyddedu sy'n cynnal "gwiriadau hawl i drwydded" yn unol â'r canllawiau i awdurdodau trwyddedu i atal gweithio anghyfreithlon yn y sector tacsis a cherbydau hurio preifat i ailadrodd gwiriadau pan fo deiliad statws cyn-sefydlog yn gymwys i ymestyn neu adnewyddu trwydded bresennol. Dylai awdurdodau trwyddedu gadw copïau o wiriadau a gynhelir pan wneir cais am y drwydded.

- Bydd y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu ar sgriniau’r gwasanaethau gwirio Hawl i Weithio, Hawl i Rentu a Gweld a Phrofi.
- Bydd canllawiau perthnasol hefyd yn cael eu diweddaru i adlewyrchu’r newidiadau hyn.

### Sut fydd hyn yn gweithio i ddeiliaid statws cyn-sefydlog?

- Nid oes rhaid i ddeiliaid statws cyn-sefydlog gymryd unrhyw gamau o ganlyniad i’r newidiadau hyn.

## Newid hyd yr estyniad statws cyn-sefydlog i 5 mlynedd

Bydd y Swyddfa Gartref yn cynyddu hyd estyniadau statws cyn-sefydlog o 2 i 5 mlynedd. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol i ddeiliaid statws cyn-sefydlog o’u hawliau parhaus, yn sgil y dyfarniad.

Ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw un sydd eisoes â statws Preswylydd Sefydlog neu sydd wedi dod yn ddinesydd Prydeinig yn y cyfamser.

### Sut fydd hyn yn gweithio i ddeiliaid statws cyn-sefydlog?

- Nid oes angen i ddeiliaid statws Preswylydd Cyn-sefydlog gymryd unrhyw gamau o ganlyniad i’r newid hwn.
- Bydd yr estyniad yn cael ei adlewyrchu yn eu statws digidol a bydd y Swyddfa Gartref yn cysylltu â nhw’n uniongyrchol i roi gwybod iddynt fod hyn wedi’i wneud. Nid oes angen iddynt gysylltu â’r Swyddfa Gartref.
- Rydym yn parhau i annog dinasyddion yr AEE ac aelodau o’u teuluoedd i wneud cais am statws Preswylydd Sefydlog o dan yr EUSS cyn gynted ag y byddant yn gymwys, i gael cadarnhad sicr o’u hawl i aros yn barhaol yn y DU. Gallwch wneud cais i newid i statws Sefydlog yn rhad ac am ddim yn www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families/applying-for-settled-status. Mae amrywiaeth eang o gymorth a chefnogaeth ar gael i ymgeiswyr sydd ei angen.

## Uwchraddio statws unigolion i Statws Preswylydd Sefydlog yn Awtomatig

O 2025, bydd y Swyddfa Gartref yn dechrau uwchraddio sefyllfa unigolion â statws preswylydd cyn-sefydlog cymwys yn awtomatig i statws preswylydd sefydlog heb iddynt orfod gwneud cais am hynny. Caiff data cyrff y llywodraeth fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a CThEF eu defnyddio i asesu pwy sy’n gymwys. Os na all y Swyddfa Gartref uwchraddio statws unigolyn yn awtomatig, bydd yn rhoi gwybod iddo, gan ofyn iddo wneud cais yn cynnwys tystiolaeth ei fod wedi bod yn byw yn y DU am bum mlynedd. Fodd bynnag, mae’n bosibl y bydd y rhai sydd â statws preswylydd cyn-sefydlog sydd wedi byw yn y DU yn barhaus am o leiaf bum mlynedd yn dal i ddewis gwneud cais am statws preswylydd sefydlog ymlaen llaw.

## Rhagor o Wybodaeth a Chymorth

**Settled**

Help – Settled

O'r DU, ffoniwch 0300 123 7379. Dydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau'r banc). 8am i 8pm. Dydd Sadwrn a dydd Sul: 9:30am i 4:30pm.

O'r tu allan i'r DU, ffoniwch +44 (0)203 080 0010. Dydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau'r banc). 8am i 8pm. Dydd Sadwrn a dydd Sul: 9:30am i 4:30pm.

## Dolenni Defnyddiol

**Rydw i angen help gyda Statws Sefydlog** www.settled.org.uk/en/help/

**Mae hawliau dinasyddion wedi newid | the3million** www.the3million.org.uk/rights-have-changed

**Hafan – Yr Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer Cytundebau Hawliau Dinasyddion**
www.ima-citizensrights.org.uk

**Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: gwybodaeth i ymgeiswyr hwyr – GOV.UK**
www.gov.uk/government/publications/eu-settlement-scheme-information-for-late-applicants/eu-settlement-scheme-information-for-late-applicants

**Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: canllawiau i weithwyr achosion – GOV.UK**
www.gov.uk/government/publications/eu-settlement-scheme-caseworker-guidance

**Dinasyddion yr UE – rydym ni eisiau i chi aros yng Nghymru – LLYW.CYMRU**
www.llyw.cymru/dinasyddion-ue-yn-nghymru

**Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: pecyn cyflogwyr – GOV.UK (www.gov.uk)**
www.gov.uk/government/collections/eu-settlement-scheme-employer-toolkit

**System fewnfudo sy'n seiliedig ar bwyntiau'r DU: gwybodaeth i ddinasyddion yr UE – GOV.UK (www.gov.uk)**
www.gov.uk/guidance/the-uks-points-based-immigration-system-information-for-eu-citizens

**Mewnfudo – Cyngor ar Bopeth** www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/mewnfudo/

**Gwiriadau Hawl i Weithio: Canllaw i Gyflogwyr – GOV.UK (www.gov.uk)**
www.gov.uk/government/publications/right-to-work-checks-employers-guide

## Cwestiynau Cyffredin am Gyflogi Dinasyddion yr UE

### A all cwmnïau a sefydliadau'r DU barhau i gyflogi Dinasyddion yr UE?

Gallant, a bydd angen iddyn nhw wneud eu gwiriadau eu hunain o ran hawl i weithio drwy ofyn i'r person am eu cod, a'i wirio drwy'r gwasanaeth gweld a phrofi hawl i weithio.

Profi'ch hawl i weithio i gyflogwr – GOV.UK (www.gov.uk)

Gweld manylion hawl i weithio ymgeisydd am swydd – GOV.UK (www.gov.uk)

Ni ddylech wahaniaethu pan fyddwch yn gwneud gwiriadau hawl i weithio. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi codau ymarfer statudol ar gyfer cyflogwyr ar sut i osgoi gwahaniaethu'n anghyfreithlon wrth gynnal gwiriadau. Mae'n nodi'n glir y dylai cyflogwyr roi bob cyfle i unigolion ddangos eu hawl i weithio ac na ddylen nhw wahaniaethu ar sail hil nac unrhyw nodwedd warchodedig arall.

### A allaf gyflogi rhywun heb Statws Preswylydd Sefydlog?

Os oes rhywun wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ond heb gael penderfyniad eto, gall ddangos Tystysgrif Ymgeisio ichi sy'n profi ei fod wedi gwneud cais ond nid yw hon yn rhoi gwybod ichi beth fydd canlyniad y cais.

### A allaf ofyn i gyflogeion presennol am dystiolaeth o hawl i weithio yn y DU?

Nid oes angen ichi wneud ôl-wiriadau hawl i weithio ar ddinasyddion yr UE a oedd wedi'u cyflogi ar 30 Mehefin 2021 neu cyn hynny. Fodd bynnag, efallai yr hoffai rhai cyflogwyr wneud ôl-wiriadau i sicrhau sefydlogrwydd eu gweithlu. Os byddwch yn dewis gwneud ôl-wiriadau, rhaid ichi sicrhau'ch bod yn gwneud hynny heb wahaniaethu.

### Pam nad yw pasbort y gweithiwr yn dangos tystiolaeth o'i Statws Preswylydd Sefydlog?

Cynllun digidol yn unig yw'r Statws Preswylydd Sefydlog ac ni all tystiolaeth o statws yr unigolyn gael ei ddangos mwyach ar basbort fel y gellid o'r blaen ar gyfer mathau eraill o statws mewnfudo.

### A yw Statws Preswylydd Cyn-sefydlog yn golygu y gallai fy nghyflogai golli ei hawl i weithio neu fyw yn y DU?

Mae Statws Preswylydd Cyn-sefydlog yn golygu nad yw'r person wedi bod yn preswylio yn y DU ers dros bum mlynedd. Bydd y person yn gallu gwneud cais am Statws Preswylydd Sefydlog unwaith y mae wedi bod yn preswylio yn y DU ers dros bum mlynedd.

### A fydd gan gyflogeion sydd â Statws Preswylydd Sefydlog yr un hawliau yn y gweithle â chyflogeion eraill?

Bydd, ac mae'n bosibl y bydd eu trin yn wahanol yn cael ei ystyried yn driniaeth wahaniaethol ac fe allech fod yn destun achos yn eich erbyn gan y cyflogai.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51440, ISBN digidol 978-1-83715-326-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg